WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 623A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Dave Thomas, Richard Harries, Geraint Norman a Tracey Davies ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y BILI ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion llai pwysig wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Mae gan y BILI drefniadau rheoli ariannol cadarn ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau ariannol ac ar hyn o bryd, ymddengys yn annhebygol y bydd y BILI yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol heb gymorth ychwanegol | 11 |
| Mae'r BILI wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu, ac er eu bod yn gadarn ar y cyfan, byddai dull mwy sefydlog o reoli risg, gwybodaeth reoli well, a seilwaith TGCh mwy cadarn yn fuddiol iddynt | 13 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi gwelliannau o ran y defnydd a wneir o adnoddau'r BILI ond erys bylchau o hyd ac mae'r BILI yn wynebu nifer o heriau sylweddol | 18 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 22 |
| Ffi archwilio | 23 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda (y BILI) yn ystod 2012. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y BILI yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r BILI i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
2. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r BILI, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i is-bwyllgor perthnasol y Bwrdd. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
3. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

4. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y BILI ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rhai materion llai pwysig wrth wneud hynny. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
    - paratowyd datganiadau ariannol y BILI yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
    - roedd gan y BILI amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod rhai meysydd i'w gwella, yn benodol mewn rhai systemau bwydo anariannol; ac
    - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y BILI yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad ac roeddent wedi gwella'n amlwg yn ystod y flwyddyn, er bod rhai gwendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

5. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r BILI ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu'r BILI. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:
    - Mae gan y BILI drefniadau rheoli ariannol cadarn ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau ariannol ac ar hyn o bryd, ymddengys yn annhebygol y bydd y BILI yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol heb gymorth ychwanegol.

- Mae'r BILI wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu, ac er eu bod yn gadarn ar y cyfan, byddai dull mwy sefydlog o reoli risg, gwybodaeth reoli well, a seilwaith TGCh mwy cadarn yn fuddiol iddynt.
- Nododd fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r BILI y materion canlynol:
  - Mae amgylchedd rheolaeth fewnol y BILI wedi parhau i aeddfedu a chefnogi fframwaith sicrwydd effeithiol y Bwrdd. Bydd datblygu trefniadau rheoli risg yn barhaus a gwella gweithrediad pwyllgorau yn gwella trefniadau craffu effeithiol y Bwrdd ymhellach.
  - Mae'r BILI wedi parhau i ddatblygu ei wybodaeth rheoli, fodd bynnag mae angen gwneud rhagor o waith i ddwyn ynghyd elfennau gwahanol o wybodaeth er mwyn atgyfnerthu gallu'r BILI i gynllunio, gwneud penderfyniadau a chraffu.
  - Gwnaed cynnydd sylweddol i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu gwybodaeth er bod adnoddau a'r seilwaith TGCh yn wynebu risg o hyd ac mae angen i'r BILI barhau i atgyfnerthu ei drefniadau i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol.

## Mae fy ngwaith  perfformiad wedi nodi gwelliannau o ran y defnydd a wneir o adnoddau'r BILI ond erys bylchau o hyd ac mae'r BILI yn wynebu nifer o heriau sylweddol

**6.** Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiad o ddefnydd y BILI o adnoddau fel a ganlyn:

- Mae'r BILI yn mynd ati ar sail systemau cyfan i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig ac mae'n cyflawni gwelliannau. Fodd bynnag, mae  risgiau'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaethau y bydd angen i'r BILI eu goresgyn.
- Mae gan y BILI ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu ond bydd rheoli a lleihau'r gweithlu'n effeithiol i gyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol yn her allweddol.
- Wrth foderneiddio ei wasanaethau iechyd, mae'r BILI wedi cynnal ymarferion ymgysylltu helaeth a chynhwysfawr â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y gymuned iechyd;
- Mae'r BILI wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r argymhellion a ddeilliodd o'n gwaith blaenorol ar wasanaethau arlwyo ac mae wedi atgyfnerthu ei ffocws sydd eisoes yn gryf ar faeth. Mae angen iddo bellach sicrhau bod cynlluniau'n arwain at newid gwasanaeth ac y caiff barn cleifion ei defnyddio'n effeithiol fel rhan o'r broses honno.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

**7.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2013. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd ym mis Ionawr 2013 a rhoddir copi i bob aelod o'r BILI. Anogwn y BILI i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**8.** Mae'r BILI yn ymateb fel mater o drefn i'r materion a godir yn fy adroddiadau. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn fel rhan o'm gwaith archwilio parhaus.

**9.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r BILI am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**10.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r BILI yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Tachwedd 2012. Ymgymeraf â'm gwaith yn yr BILI mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr BILI, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod y BILI wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**11.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y BILI;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r BILI, a ystyriodd drefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y BILI yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y BILI;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**12.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r BILI eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**13.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**14.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y BILI, a dengys bod y ffi honno yn unol â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**15.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y BILI ar gyfer 2011-12. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**16.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y BILI, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y BILI a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**17.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**18.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y BILI; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y BILI ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion llai pwysig wrth wneud hynny

### Paratowyd datganiadau ariannol y BILI yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**19.** Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft cyn y terfyn amser, sef 4 Mai 2012. Paratowyd y datganiadau ariannol i safon dda ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr. Bu'r datganiadau ariannol hefyd yn destun arolwg manwl gan y Pwyllgor Archwilio.

20. Mae fy nhîm wedi parhau i weithio'n agos gyda staff cyllid y BILI drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod problemau posibl yn cael eu nodi a'u datrys mewn ffordd amserol. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, gwnaethom hefyd gynnal sesiwn dysgu ôl-brosiect ar y cyd. Bydd hyn yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio ar y cyd ar gyfer 2012-13.

21. Yn unol ag ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Bwrdd y BILI ar 6 Mehefin 2012.

22. Amlygodd fy adroddiad fod nifer o gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol drafft wedi cael eu cywiro gan reolwyr. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi materion allweddol eraill a nodir yn yr adroddiad hwnnw sydd wedi'u diweddaru'n unol â datblygiadau diweddar.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Hawliadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG | Ledled Cymru, prin fu'r cynnydd a wnaed o ran asesu hawliadau gofal iechyd parhaus y GIG sy'n weddill sy'n golygu bod y ddarpariaeth gysylltiedig yn faes amcangyfrif allweddol.<br>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth a rhwymedigaeth wrth gefn ar gyfer hawliadau sy'n weddill. Mae rhagor o wybodaeth am dueddiadau bellach ar gael yn 2012-13 a bydd y BILI yn defnyddio'r wybodaeth hon i fireinio'r fethodoleg ar gyfer y ddarpariaeth a'r rhwymedigaeth wrth gefn. |
| Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus | Ledled Cymru, mae'r gwaith o adrodd ar daliadau credydwyr o fewn 30 diwrnod fel y nodir yn y datganiadau ariannol wedi bod yn destun pryder oherwydd anghysondebau yn y canllawiau a'r dull gweithredu. Yn ystod 2012-13, bydd y BILI yn gweithio gyda Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir y GIG a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y canllawiau'n gliriach ac y cydymffurfir â hwy'n llawn. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Er bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (sy'n disodli'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol o 2011-12) wedi'i baratoi'n amserol, yn ein barn ni, roedd y datganiad yn rhy hir a gallai fod wedi bod yn gliriach. Yn 2012-13, bydd y BILI yn adolygu'r fformat ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda ffocws clir ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, gan ddarparu rhagor o wybodaeth am feysydd sy'n wynebu risg a meysydd o bryder. |

**23.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y BILl ar 31 Mawrth 2012 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi i safon dda, yn unol â'r terfynau amser gofynnol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**24.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd Elusennol y BILl hefyd wedi'i gwblhau. Mae'r BILl wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'r trefniadau ar gyfer cronfeydd elusennol ond bwriedir gwneud rhagor o waith i wella trefniadau casglu incwm. Ar y cam hwn, rwy'n bwriadu cyhoeddi barn ddiamod yn ystod mis Ionawr 2013.

## Roedd gan y BILl amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**25.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol i asesu a yw'n rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich amgylchedd rheolaeth fewnol.

**26.** Yn ystod y flwyddyn gwnaethom asesu'r adran Archwilio Mewnol yn erbyn ei safonau proffesiynol. Ar y cyfan, daethom i'r casgliad fod yr adran Archwilio Mewnol yn darparu gwasanaeth da ond mae lle i wella mewn rhai meysydd. At hynny, daethom i'r casgliad fod angen i'r BILl sicrhau bod rheolwyr yn darparu ymatebion mwy prydlon er mwyn cymeradwyo adroddiadau Archwilio Mewnol mewn modd mwy amserol.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y BILl yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**27.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y BILl a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd rhai materion llai pwysig yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio neu'r rheolwyr.

**28.** Nododd yr adran Archwilio Mewnol nifer o welliannau i systemau ariannol ac anariannol y mae angen eu rheoli'n barhaus. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

**29.** Rydym hefyd wedi adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd gan y BILl er mwyn mynd ar drywydd canfyddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r BILl wedi cytuno ar gynllun clir ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran ymchwilio i achosion paru posibl.

### Cyflawnodd y BILl falans ariannol ar ddiwedd 2011-12, ond dim ond o ganlyniad i gyllid anghylchol gan Lywodraeth Cymru ac arbedion gwella costau sylweddol

**30.** Yn gyffredinol, cyflawnodd y BILl ei dargedau ariannol yn 2011-12. Cyflawnwyd y targedau hyn yn bennaf o ganlyniad i 'gymorth strategol' gwerth £33 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ochr yn ochr â chyflawni targedau lleihau costau a chyfyngu ar gostau sylweddol gwerth £48.8 miliwn.

**31.** Yn wahanol i'r BILlau eraill yng Nghymru, ni chafodd y BILl 'froceriaeth' hwyr yn ystod 2011-12. Ceir sylwadau ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn 2012-13 yn yr adran ganlynol.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**32.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y BILl dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y BILl, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni cynlluniau lleihau costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r BILl drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig gyda phwyslais penodol ar gadernid fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol;
- gwaith defnydd penodol o adnoddau mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrawsnewid gwasanaethau gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y BILl o ran ymdrin â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar wasanaethau arlwyo.

**33.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn isod.

### Mae gan y BILl drefniadau rheoli ariannol cadarn ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau ariannol ac ar hyn o bryd, ymddengys yn annhebygol y bydd y BILl yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol heb gymorth ychwanegol

**34.** Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer rhagweld gwariant, pennu cyllideb a monitro'r gyllideb ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae ansawdd adroddiadau wedi gwella ac mae'r adborth gan ddefnyddwyr yn dda.

**35.** Mae gan y BILl enw da am reoli pwysau o ran costau ac mae wedi llwyddo i gyflawni balans ariannol ers ei ffurfio yn 2009, er bod ei allu i gyflawni cynlluniau arbed costau wedi amrywio. Fodd bynnag, mae'r BILl yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol wrth ddarparu ei wasanaethau, ac nid yw'r oedi o ran yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol wedi helpu yn hynny o beth.

**36.** Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r BILl wedi nodi pwysau ariannol sylweddol yn sgil y galw ychwanegol am wasanaethau. Ochr yn ochr â hyn, mae'r BILl yn ceisio cyflawni arbedion gwerth £36.4 miliwn o'i gynlluniau gwella costau. Fodd bynnag, mae cynlluniau gwella costau'r BILl yn rhy uchelgeisiol yng ngoleuni ei berfformiad yn erbyn cynlluniau arbed blaenorol a'r ffaith nad yw wedi ailgynllunio gwasanaethau. Ar gyfer 2012-13, caiff graddau effaith yr her ariannol barhaus ei hamlygu gan y ffaith ei fod yn bwriadu cyflawni 75 y cant o'r cynlluniau gwella costau yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Yn ogystal:

- nodwyd £8.8 miliwn o arbedion 'Cyfrifyddu' untro ond nid ydynt wedi'u harchwilio eto.
- mae'r nod o gyflawni gwerth £3.3 miliwn o arbedion Gofal Iechyd Parhaus ynghyd â £7.6 miliwn o arbedion Rheoli Meddyginiaethau yn heriol iawn. Mae'n annhebygol y caiff yr arbedion Gofal Iechyd Parhaus eu cyflawni ac er bod y BILl yn debygol o gyflawni'r arbedion Rheoli Meddyginiaethau, bydd yn anodd iawn iddo barhau i gyflawni ei dargedau am weddill y flwyddyn ariannol.
- mae'r £15.4 miliwn o arbedion gweithlu a nodwyd yn uchelgeisiol iawn gan eu bod yn tybio y caiff swyddi tua 60 o staff cyfwerth ag amser cyflawn eu dileu bob mis. Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o waith i'w wneud cyn y gall y BILl gyflawni'r targed hwn. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr Adroddiad hwn, mae rheoli gweithlu sy'n lleihau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol yn her allweddol i'r BILl.

**37.** Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, nododd y BILl her weddilliol o £12.8 miliwn. Hyd yn oed os bydd y BILl yn cyflawni ei gynlluniau gwella costau, noda'r BILl ei fod yn profi lefelau anarferol o uchel o weithgarwch, fel sy'n wir yn y rhan fwyaf o BILlau yng Nghymru eleni, ac o ganlyniad i hyn, ym mis Tachwedd 2012, rhagwelodd y BILl ddiffyg 'Sefyllfa Orau' o £11 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

**38.** Ym mis Rhagfyr 2012, hysbyswyd y BILl am £8 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i gau'r bwlch hwn. Mae'r BILl wrthi'n gweithio ar 'gynlluniau unioni' er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg sy'n weddill. O ystyried yr arbedion hyn, gallai effeithio ar gyflawni, ansawdd a diogelwch. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, byddai'n rhesymol dod i'r casgliad na fydd y BILl yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, heb gymorth cronfeydd ychwanegol, a/neu wneud gostyngiadau yn y gweithgareddau a gynlluniwyd.

39. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae'r BILl wedi adrodd ar ei berfformiad ariannol yn gyson i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad annibynnol o gynlluniau Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol y BILl ar gyfer 2012-13 gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd y BILl gynllun risg uchel ar gyfer mantoli'r gyllideb ym mis Gorffennaf 2012. Newidiodd hyn y cofnodion ar gyfer y flwyddyn gyfredol, fel y dangosir yn Arddangosyn 2. Ar sail cynllun risg uchel i fantoli'r gyllideb, nododd y BILl ei fod wedi mantoli'r gyllideb ym mis 3 er gwaetha'r ffaith, o ystyried diffyg o £4 miliwn ar yr adeg honno, nad oedd y sefyllfa sylfaenol wedi newid rhyw lawer ers dechrau'r flwyddyn. Nodwyd y sefyllfa 'debygol' yn naratif yr adroddiad ac mae'r Bwrdd wedi cael darlun cyson o berfformiad y BILl. Mae'r BILl wedi dysgu gwersi o'r newid yn ystod y flwyddyn ac wedi dychwelyd i'r broses adrodd gychwynnol.

Arddangosyn 2: Diffyg 'tebygol' ar ddiwedd y flwyddyn fel yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru

| Mis | Sefyllfa ariannol 'debygol' ar ddiwedd y flwyddyn fel yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru |
|---|---|
| Ebrill 2012 | (£12.8m) |
| Mai 2012 | (£12.8m) |
| Mehefin 2012 | £0 |
| Gorffennaf 2012 | £0 |
| Awst 2012 | (£2.3m) |
| Mis Medi 2012 | (£3.1m) |
| Hydref 2012 | (£11.0m) |

40. Caiff adnoddau cyfalaf eu rheoli'n dda ond mae'r BILl yn wynebu cyfyngiadau cyfalaf sylweddol yn y dyfodol, yn arbennig ar gyfer cyfalaf dewisol, sy'n cwmpasu eitemau fel prynu cyfarpar newydd yn lle hen rai. Gall hyn effeithio ar ansawdd a diogelwch.

## Mae'r BILl wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu, ac er eu bod yn gadarn ar y cyfan, byddai dull mwy sefydlog o reoli risg, gwybodaeth reoli well, a seilwaith TGCh mwy cadarn yn fuddiol iddynt

### Mae amgylchedd rheolaeth fewnol y BILl wedi parhau i aeddfedu a chefnogi fframwaith sicrwydd effeithiol y Bwrdd. Bydd datblygu trefniadau rheoli risg yn barhaus a gwella gweithrediad pwyllgorau yn gwella trefniadau craffu effeithiol y Bwrdd ymhellach.

41. Mae gan y BILl systemau ar waith i nodi'r prif risgiau a rhwystrau i gyflawni ei amcanion strategol allweddol, yn enwedig o ran diogelwch, ansawdd a chyllid. Cefnogir hyn gan gofrestr risg gorfforaethol y BILl, a gyhoeddir yn fuan ar wefan y BILl.

Y llynedd, nodais fod rheoli risg yn faes allweddol i'w ddatblygu. Atgyfnerthwyd trefniadau a chânt eu gwella ymhellach gan y strategaeth risg ddiwygiedig a'r fframwaith ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Fodd bynnag, mae'r BILl yn cydnabod bod angen gwneud mwy i ymgorffori prosesau'n gyson a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

**42.** Mae gan y BILl fframwaith sicrwydd sefydledig a rheolau mewnol i fynd i'r afael â risgiau strategol. Mae'r BILl yn bwriadu gwella'r cysylltiadau rhwng y strategaeth gorfforaethol a dulliau cyflawni gweithredol drwy'r trefniadau sicrwydd integredig diwygiedig. Mae'r rhaglen o sesiynau datblygu'r Bwrdd wedi helpu i atgyfnerthu'r Bwrdd drwy godi ymwybyddiaeth o faterion allweddol a chyfrifoldebau. Gwnaed cynnydd da o ran atgyfnerthu arweinyddiaeth glinigol, gan leihau gwaith seilo a meithrin gallu a chapasiti uwch reolwyr a rheolwyr canol i arwain. Mae'r rhaglen Sylfeini Newid sydd â'r nod o rymuso'r timau sirol i weithredu'n gorfforaethol ac yn gydweithredol er mwyn cyflawni amcanion y BILl yn gam cadarnhaol.

**43.** Canfu ein harsylwadau o'r Bwrdd a'i brif bwyllgorau eu bod yn gweithio'n dda ar y cyfan a bod cysylltiadau da rhyngddynt. Gyda'i gilydd, mae agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn dangos cydbwysedd da rhwng ansawdd, diogelwch a chyllid. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl am achosion o ddyblygu ac nid oedd unrhyw fylchau amlwg. Mae gan y pwyllgorau gynllun gwaith clir, a chânt eu cadeirio'n dda mewn amgylchedd cymhwysol gyda chyfraddau presenoldeb da a dadl a her gadarn. Gwnaed hefyd rai gwelliannau i'r modd y mae pwyllgorau yn adrodd i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae lle i wella gweithrediad nifer o'r prif bwyllgorau gan fod eu hagendâu'n rhy hir a gormod o bapurau, ac mae rhai eitemau'n cael eu gohirio tan gyfarfodydd yn y dyfodol neu eu rhuthro. Mae llawer gormod o is-bwyllgorau a grwpiau ar waith, gyda thua 50 o is-bwyllgorau a grwpiau yn bwydo i mewn i'r Bwrdd. Yn 2011, nodwyd bod y BILl yn mapio ei bwyllgorau a'i grwpiau er mwyn adolygu eu heffeithiolrwydd. Erys y darn pwysig hwn o waith yn anghyflawn i bob pwrpas.

**44.** Cyhoeddwyd Llawlyfr newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2012. Mae'r BILl wedi mynd ati mewn modd ystyriol i fodloni gofynion y llawlyfr newydd a chymeradwywyd y cylch gorchwyl a'r rhaglen waith ddiwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2012. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu eto pa wybodaeth glinigol sydd ei hangen arno a bydd angen i'r BILl asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd maes o law.

**45.** Mae gwaith archwilio clinigol yn parhau i gael ei atgyfnerthu ac mae'n dod yn gynyddol yn rhan allweddol o'r fframwaith sicrwydd. Ceir cynlluniau ar gyfer gwella ymhellach a amlinellir yn y polisi archwilio clinigol newydd. Diben y polisi yw datblygu a chynnal diwylliant o arfer gorau ym maes archwilio clinigol ac mae hefyd yn egluro rolau a chyfrifoldebau staff sy'n ymwneud â gweithgareddau archwilio clinigol. Rhoddwyd systemau ar waith i fodloni gofynion archwilio Cenedlaethol sydd bellach wedi'u hymgorffori mewn modd mwy systematig. Bu newid mewn personél o fewn yr adran archwilio clinigol ac mae ganddi lai o allu ac adnoddau. Mae angen i'r BILl sicrhau nad yw'r materion hyn yn cyfaddawdu'r swyddogaeth sicrwydd.

46. Atgyfnerthwyd prosesau'r BILl i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru ac mae camau'n cael eu cymryd i ymgorffori'r broses yn systematig a'i llywio'n barhaus ac i ddatblygu sicrwydd mewnol drwy weithio'n agos gyda'r adran Archwilio Mewnol. Mae'r BILl yn defnyddio sicrwydd allanol ac mae bellach yn mynd ati'n fwy rhagweithiol i ddefnyddio ac atgyfnerthu prosesau sicrwydd mewnol i fynd i'r afael â risgiau. Mae enghreifftiau da o achosion lle mae'r BILl wedi dwyn ynghyd ganlyniadau sicrwydd mewnol ac allanol er mwyn llywio gwelliannau. Mae tystiolaeth glir i ddangos bod y BILl yn cymryd camau gweithredu pendant a phriodol lle y nodir methiannau a gwendidau.

Mae'r BILl wedi parhau i ddatblygu ei wybodaeth rheoli. Fodd bynnag mae angen gwneud rhagor o waith i ddwyn ynghyd elfennau gwahanol o wybodaeth er mwyn atgyfnerthu gallu'r BILl i gynllunio, gwneud penderfyniadau a chraffu.

47. Canolbwyntiodd fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig eleni ar ba un a all y Bwrdd a'i bwyllgorau gael gafael ar y wybodaeth reoli berthnasol i gynllunio, gwneud penderfyniadau ac ategu trefniadau craffu a sicrwydd effeithiol i'r Bwrdd. Nodais y canlynol:

- Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael y lefel gywir o wybodaeth ar y cyfan; ni chaiff ei gorsymleiddio ac mae digon o fanylion ar gael er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol ac amserol.
- Mae'r gwaith o adrodd ar berfformiad yn y BILl yn datblygu ac yn cael ei atgyfnerthu'n barhaus. Mae adroddiadau ariannol wedi gwella ac maent bellach yn nodi'r materion allweddol ac yn cynnwys cysylltiadau gwell ag ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn helpu'r Bwrdd i gymryd perchenogaeth dros y materion a gwneud penderfyniadau hyddysg.
- Mae'r adroddiadau integredig ar berfformiad yn ddangosydd da o berfformiad yn y meysydd a gwmpesir ganddynt ond mae cydbwysedd y wybodaeth yn parhau i ymwneud â gofal eilaidd i raddau helaeth, heb fawr ddim gwybodaeth am berfformiad o ran profiad a chanlyniadau cleifion na gofal cymunedol a sylfaenol. Fodd bynnag, nod yr adroddiad a luniwyd yn ddiweddar ar berfformiad gofal sylfaenol yw cau'r bwlch mewn gwybodaeth am ofal sylfaenol er y cydnabyddir bod angen ei ddatblygu a'i fireinio ymhellach.
- Mae ymrwymiad clir i ddeall ansawdd a diogelwch gwasanaethau, er mai pur anaml y caiff y wybodaeth hon ei nodi mewn un man. Gallai fod o fudd i'r BILl ddatblygu 'dangosfwrdd' corfforaethol o ran ansawdd a diogelwch sy'n dwyn ynghyd fesurau ansawdd, diogelwch a chanlyniadau. Dylai hwn gynnwys dadansoddiad o dueddiadau cymaradwy a pherfformiad ar lefel Sirol a BILl.

- Mae angen i adroddiadau perfformiad fod yn fwy soffistigedig ac ystyrlon. Mae angen i'r BILl ddwyn ynghyd ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n cyfleu'r hyn sy'n digwydd yn y system a chynnwys ffactorau ysgogi ansawdd sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion perfformiad allweddol. Cydnabu'r BILl hyn ac mae wedi dechrau ystyried sut i fesur a monitro perfformiad integredig a beth sydd angen ei fesur o ran iechyd y cyhoedd, targedau prosesau, gofal sylfaenol a chanlyniadau ac mae wedi mapio'r mesurau sydd ar gael.

**48.** Yn ogystal ag adolygu gwybodaeth reoli, mae fy ngwaith hefyd wedi canolbwyntio ar b'un a yw'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a gyflwynir. Drwy fy ngwaith arsylwi, cafwyd tystiolaeth dda o graffu a herio gan aelodau Bwrdd a phwyllgorau allweddol y BILl. Mae'n amlwg o drafodaethau'r pwyllgorau fod cysylltiadau ar lafar yn cael eu gwneud rhwng ansawdd, diogelwch a chyllid a bod ffynonellau sicrwydd eraill fel sesiynau crwydro diogelwch hefyd yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, byddai mesurau perfformiad integredig yn gwella dealltwriaeth a gwaith craffu ymhellach.

**49.** Mae cymorth ar gael i aelodau ddefnyddio gwybodaeth reoli a dengys ein harsylwadau fod gan aelodau'r sgiliau priodol i wneud y defnydd gorau o wybodaeth reoli. Mae mynediad parod i wybodaeth electronig yn cefnogi dulliau dadansoddi gwybodaeth ymhellach ac mae'r BILl ar fin darparu gliniaduron y GIG i Aelodau Annibynnol er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl.

Gwnaed cynnydd sylweddol i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu gwybodaeth er bod adnoddau a'r seilwaith TGCh yn wynebu risg o hyd ac mae angen i'r BILl barhau i atgyfnerthu ei drefniadau i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol

**50.** Y llynedd, nodais feysydd i'w datblygu mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth BILlau. Mae fy ngwaith eleni wedi nodi bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi'u hatgyfnerthu er bod adnoddau a seilwaith TGCh yn peri risg sylweddol o hyd. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- cymerwyd camau pendant i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu gwybodaeth a gwnaed cynnydd da o ran hynny, ac mae'r BILl wedi nodi'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau gwelliannau pellach ac wedi dechrau eu gweithredu;
- erys gwydnwch y rhwydwaith a'r seilwaith yn risg sylweddol ac er bod gan y BILl nifer o reolaethau ar waith i leihau'r risgiau hyn, mae angen datrysiadau cynaliadwy dim ond er mwyn cynnal gwasanaethau presennol yn ddiogel; a
- bydd y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol yn galw am fuddsoddiad cyfalaf a refeniw TGCh sylweddol er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau mewn yn wirioneddol.

**51.** Rwyf wedi cynnal archwiliad lefel uchel o drefniadau'r BILl ar gyfer sicrhau bod y data a gynhyrchir ganddo yn ddibynadwy ac yn gywir. Er nad yw'r gwaith hwn wedi ceisio dilysu ansawdd setiau data na dangosyddion perfformiad penodol y GIG, mae wedi adolygu data demograffig cleifion sylfaenol er mwyn pennu faint o wybodaeth ddyblyg sydd ar y systemau Gweinyddu Cleifion a Radioleg a faint o wybodaeth sydd ar goll.

**52.** Nododd fy ngwaith, er bod enghreifftiau o drefniadau ansawdd data gweithredol effeithiol ym mhob rhan o'r BILl, ni chânt eu cymhwyso'n gyson bob amser ac nid ydynt yn rhoi sicrwydd digon cadarn i'r Bwrdd. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- mae uwch reolwyr yn ymrwymedig i wella ansawdd data ond mae angen gwella trefniadau o ran sicrwydd a chydgysylltu rolau a chyfrifoldebau ansawdd data;
- nid oes polisi ansawdd data cynhwysfawr ar waith yn y BILl, sy'n golygu bod gweithdrefnau a phrosesau yn anghyson;
- mae ansawdd data o fewn systemau allweddol yn anghyson, sy'n creu risg glinigol a busnes ddiangen; ac
- un o brif heriau'r BILl yw sicrhau bod pob aelod o staff yn cydnabod ei rôl wrth sicrhau ansawdd data effeithiol.

**53.** Yn ogystal â gwaith ar ansawdd data, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried trefniadau'r BILl ar gyfer rhoi canllawiau Caldicott ar gyfrinachedd data cleifion ar waith, a hefyd gadernid prosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes y BILl pe byddai'r system TG yn methu.

**54.** Canfu fy ngwaith ar drefniadau'r BILl ar gyfer sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth fod trefniadau Cadlicott yn gadarn ar y cyfan a bod y BILl yn ymwybodol o'i wendidau ac yn gwneud gwelliannau. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- mae gan y BILl drefniadau cadarn ar waith ond mae angen iddo gadarnhau'r trefniadau ar gyfer awdurdodi a dirprwyo Gwarcheidwad Caldicott, er mwyn egluro'r broses hon;
- mae gan y BILl ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau dros sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth ac mae wedi nodi ei wybodaeth risg uchel am gleifion a staff ac mae bellach wrthi'n nodi ac yn asesu pob ffynhonnell arall o wybodaeth;
- mae'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau Caldicott ar waith ac mae'r BILl wrthi'n gwella ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff; ac
- mae trefniadau goruchwylio a sicrwydd effeithiol ar waith ond gallai'r BILl wella hyn ymhellach drwy gynnwys ei sgôr Egwyddorion Caldicott ar Waith yn yr Adroddiad Blynyddol.

**55.** Nododd fy ngwaith ar brosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes mewn perthynas â systemau clinigol TGCh nad oes gan y BILl drefniadau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes digon cadarn, ond mae'n ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn cymryd camau gwella. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd a hyd nes bod y newidiadau arfaethedig wedi'u cwblhau, mae hyn yn peri risg sylweddol i'r BILl. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- mae trefniadau llywodraethu parhad busnes TGCh ac adfer ar ôl trychineb yn gwella, ond mae angen egluro cyfrifoldebau am systemau a gwasanaethau a reolir gan gyflenwyr gwasanaethau eraill;
- nid oes gan y BILl gynlluniau adfer ar ôl trychineb TGCh na pharhad busnes ar waith, ond mae'n dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn;

- mae gwendidau mewn rheolaethau a gwydnwch y seilwaith TGCh, ond mae'r ganolfan ddata a phrosiectau data wrth gefn yn cynnig cyfle i'r BILl atgyfnerthu trefniadau; ac
- nid yw'r BILl yn profi trefniadau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes i sicrhau eu bod yn gweithredu yn ôl y bwriad, sy'n ei gwneud yn anodd nodi a blaenoriaethu camau gwella.

**56.** Yn sgil fy adolygiad o sicrwydd gwybodaeth leol a gynhaliwyd ddechrau 2012, deuthum i'r casgliad na fu ein hadolygiad sylfaenol o Sicrwydd Gwybodaeth a gyhoeddwyd yn 2009 yn sbardun ar gyfer newid o fewn y BILl. Mae systemau eraill a roddwyd ar waith wedi sicrhau gwelliannau, ond erys gwendidau mewn rheolaethau, sy'n parhau i beri risg i ddiogelwch. Nododd yr adolygiad dilynol y canlynol:

- er bod gwelliannau wedi'u gwneud, hyd yma nid yw'r BILl wedi rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau y caiff risg i ddiogelwch gwybodaeth ei rheoli'n gadarn; ac
- mae gwaith yn mynd rhagddo i wella rheolaethau diogelu gwybodaeth penodol, ond ni wnaed cymaint o gynnydd â'r disgwyl.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi gwelliannau o ran y defnydd a wneir o adnoddau'r BILl ond erys bylchau o hyd ac mae'r BILl yn wynebu nifer o heriau sylweddol

### Mae'r BILl yn mynd ati ar sail systemau cyfan i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig ac mae'n cyflawni gwelliannau. Fodd bynnag, mae risgiau'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaethau y bydd angen i'r BILl eu goresgyn.

**57.** Fel rhan o'm gwaith i bennu a yw'r BILl yn trawsnewid ei wasanaethau ac yn defnyddio ei adnoddau'n effeithlon, aseswyd y cynnydd a wnaed o ran rhoi datrysiadau system gyfan ar waith mewn perthynas â heriau gofal heb ei drefnu ac archwiliwyd y cynnydd a wnaed gan y BILl wrth ddatblygu ei wasanaethau ar gyfer pobl â chyflyrau cronig. Deuthum i'r casgliad canlynol:

- Mae'r BILl wedi cyflwyno amrywiaeth o welliannau gwasanaeth ar gyfer rheoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu ac, er bod perfformiad yn gwella, erys nifer o heriau cyn y gellir cyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen;
  - er bod perfformiad ym maes damweiniau ac achosion brys yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, erys pwysau staffio ac mae cyfleoedd i leihau'r galw am wasanaethau a arweinir gan feddygon teulu;
  - mae dibyniaeth ar y sector aciwt i reoli cyflyrau cronig yn lleihau ac mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal a gwella llifau cleifion;
  - mae'r BILl wedi gwneud cynnydd da wrth lywio'r ffordd y mae'n cefnogi pobl yn y gymuned er mwyn atal defnydd diangen o ysbytai, ond mae angen gwneud mwy i wireddu manteision datblygiadau newydd yn llawn; a

- tra bod mesurau i gefnogi hunanofal yn cael eu hyrwyddo'n weithredol, gellid gwneud mwy i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau ysbytai.

- Mae gan y BILl weledigaeth glir a rhagolygon da ar gyfer cyflawni'r camau trawsnewid, ond mae darbwyllo'r cyhoedd bod angen newid gwasanaeth wedi bod yn heriol. Bydd llwyddiant yn ddibynnol ar sicrhau cytundeb ar y newidiadau arfaethedig a llwyddo i drawsnewid y gweithlu fel sy'n ofynnol.

### Mae gan y BILl ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu ond bydd rheoli a lleihau'r gweithlu'n effeithiol i gyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol yn her allweddol.

**58.** Nododd fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig fod y BILl, er gwaethaf y ffaith nad oes Strategaeth Gwasanaethau Clinigol wedi'i chwblhau, wedi datblygu ei Gynllun Gweithlu ar gyfer 2012 mewn modd pragmatig. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r heriau a wynebir gan y gweithlu a'r gwaith sydd ei angen i foderneiddio ac ailddatblygu gwasanaethau. Mae'n dangos yn glir y bwriad i foderneiddio yn hytrach nac ymestyn gallu ac adnoddau, nad yw'n opsiwn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cynllun ymgynghori sy'n nodi'n glir fod llwyddiant yn ddibynnol ar ffyrdd newydd o weithio ar gyfer ei staff. Fodd bynnag, ceir tensiynau rhwng sicrhau arbedion ariannol sylweddol nawr a buddsoddi ar gyfer y dyfodol wrth i ofal symud i'r gymuned.

**59.** Mae gan y BILl wybodaeth fanwl am weithlu'r sector gofal eilaidd ac mae'n gweithio gyda'r Pwyllgor Meddygol Lleol i sicrhau mwy o wybodaeth gywir am y gweithlu gofal sylfaenol gan gynnwys nyrsys practis. Mae'r BILl yn ymrwymedig i ddefnyddio systemau gweithlu electronig fel y Cofnod Staff Electronig ac e-amserlennu er mwyn helpu i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu a gwybodaeth. Mae'r metrics gweithlu a ddefnyddir i fonitro cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn datblygu'n barhaus ond gellid defnyddio gwaith meincnodi'n fwy effeithiol. Ceir cynllun ariannol a gweithlu integredig wedi'i gostio ond mae'r tybiaethau yn y cynllun yn uchelgeisiol iawn gan fod y £15.4 miliwn o arbedion gweithlu yn tybio y caiff swyddi tua 60 o staff cyfwerth ag amser cyflawn eu dileu bob mis. Nid yw'n glir a yw'r trosiant staff presennol ar y lefel hon.

**60.** Mae gan y BILl nifer o bwyllgorau a grwpiau sy'n ystyried datblygiad y gweithlu a datblygiad sefydliadol ac mae enghreifftiau o ddulliau rhagweithiol o ailfodelu'r gweithlu er mwyn sicrhau y caiff ei ddefnyddio'n effeithiol a helpu i drawsnewid gwasanaethau. Buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac ymdrech i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu. Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi bod yn gyson islaw targed Llywodraeth Cymru ac mae'r BILl wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau cyflog amrywiol fel goramser er bod y cyfleoedd i leihau hynny ymhellach o fewn y drefn bresennol bellach wedi'u cyfyngu. O ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol, mae'r BILl bellach yn gwerthuso pob swydd wag yn feirniadol ac mae tystiolaeth i ddangos bod diogelwch yn drech na goblygiadau ariannol pan fydd y BILl yn gwneud penderfyniadau am lenwi swyddi gwag. Fodd bynnag, bwriedir dileu swyddi rhagor o staff ac mae angen i'r BILl sicrhau nad yw hyn yn cael effaith ar ansawdd a diogelwch.

61. Defnyddir arfarniadau'n gynyddol fel modd i gefnogi datblygiad staff a datblygiad sefydliadol ac mae gwelliannau wedi'u gwneud. Er bod pocedi o arfer da, erys cydymffurfiaeth â chynlluniau datblygiad personol (CDPau) yn isel ac mae'r BILI yn datblygu mesurau i wella cydymffurfiaeth.

62. Mae'r swyddogaeth Adnoddau Dynol (AD) i'w gweld yn amlwg ar lefel strategol a gweithredol ac mae'n ffactor galluogi allweddol o ran newid sy'n helpu staff y BILI i ddatblygu, gweithredu a rheoli cynlluniau newid y gweithlu er mwyn trawsnewid gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r gweithlu a staff datblygu sefydliadol wedi gweithio'n agos gyda thimau sirol er mwyn nodi gofynion o ran sgiliau ac adnoddau ar gyfer modelau darparu gwasanaethau yn y dyfodol ond ni ellir cadarnhau hyn nes bod y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol wedi'i chwblhau.

Wrth foderneiddio ei wasanaethau iechyd, mae'r BILI wedi cynnal ymarferion ymgysylltu helaeth a chynhwysfawr â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y gymuned iechyd.

63. Mae fy ngwaith eleni ar ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi nodi bod y BILI wedi parhau i atgyfnerthu ei ddull gweithredu. Roedd y cyfnod cyn ymgynghori ar foderneiddio ei wasanaethau iechyd yn cynnwys ymarfer ymgysylltu helaeth a chynhwysfawr â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Defnyddiwyd sefydliad annibynnol i ddadansoddi barn cyn ymgynghori mewn modd systematig a chyhoeddwyd y canlyniadau'n eang. Daeth y canlyniadau annibynnol i'r casgliad fod y BILI wedi bod yn agored ac yn deg i'r rheini oedd am fynegi eu barn. Fodd bynnag, dangosodd y canlyniadau hefyd farn gymysg ymhlith y cyhoedd ynghylch p'un a oedd y wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall.

64. Nododd cynllun y BILI ar gyfer rheoli'r broses ymgynghori drefniadau, amserlenni a phrosesau monitro ac adolygu allweddol ynghyd â'r modd y byddai'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi. Nododd y BILI achos cadarn a chlir dros newid a oedd yn ystyried barn a gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod cyn ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd wedi'i hysgrifennu'n glir, yn hawdd ei deall, ac ar gael mewn ystod eang o fformatau ac roedd wedi'i hategu gan ddogfennaeth dechnegol gynhwysfawr. At hynny, arweiniodd uwch glinigwyr y gwaith o gyflwyno'r achos dros newid, yn wahanol i'r hyn a wnaed yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori.

Mae'r BILI wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r argymhellion a ddeilliodd o'n gwaith blaenorol ar wasanaethau arlwyo ac mae wedi atgyfnerthu ei ffocws sydd eisoes yn gryf ar faeth. Mae angen iddo bellach sicrhau bod cynlluniau'n arwain at newid gwasanaeth ac y caiff barn cleifion ei defnyddio'n effeithiol fel rhan o'r broses honno.

65. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y BILI o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol ar wasanaethau arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Arlwyo | Mae'r BILl wedi atgyfnerthu ei ffocws a oedd eisoes yn gadarn ar faeth ac wedi dechrau prosiect i sefydlu Cynllun Busnes Gwasanaethau Arlwyo, er bod angen iddo bellach sicrhau bod y cynllunio'n arwain at newid gwasanaethau ac y caiff barn cleifion ei defnyddio fel rhan effeithiol o'r broses. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae'r ffocws ar faeth a oedd eisoes yn gadarn wedi'i atgyfnerthu ymhellach ac mae prosiect i ddatblygu Cynllun Busnes Gwasanaethau Arlwyo wedi'i roi ar waith;<br>• mae'r BILl wedi datblygu ffigurau costau arlwyo cyson ac mae'n mynd i'r afael â chymorthdaliadau bwyd i bobl nad ydynt yn gleifion, er bod mwy o le i osgoi gwastraff bwyd heb ei fwyta o brydau a weinir i gleifion o hyd;<br>• tra bod trefniadau blaenorol y BILl i ddiogelu amseroedd bwyd yn cael eu cynnal, mae angen atgyfnerthu hyfforddiant staff ar weithredu Llwybr Gofal Maethol Cymru gyfan o hyd yn ogystal ag elfennau o gofnodion cleifion sy'n gysylltiedig â maeth; ac<br>• mae'r BILl yn datblygu dulliau ymgysylltu â chleifion mewn modd gofalus a phragmataidd tra'n aros am ganllawiau cenedlaethol pellach, ac adlewyrchir hyn yn y cynnydd bach a welwyd yn y maes hwn. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Mawrth 2012 |
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Adolygiad Archwilio Mewnol | Mehefin 2012 |
| Adolygiad Archwilio Cyfalaf a Menter Cyllid Preifat | Mehefin 2012 |
| Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2012 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2012 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwaith Dilynol Sicrwydd Preifat 27001 | Chwefror 2012 |
| Trefniadau Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes | Chwefror 2012 |
| Ansawdd Data | Awst 2012 |
| Trawsnewid Gofal Heb ei Drefnu a Rheoli Cyflyrau Cronig (Adolygiad Cyfun) | Tachwedd 2012 |
| Asesiad Strwythuredig (2012) - Pecyn Cyflwyno | Rhagfyr 2012 |

Ceir hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n mynd rhagddynt yn y BILI o hyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Drefniadau Staffio Wardiau a Gwaith Dilynol | Rhagfyr 2012 |
| Presgripsiynau Meddygon Teulu (2012) | Mawrth 2013 |
| Orthopedeg (2012) | Mehefin 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £408,218 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarparwyd i'r BILI gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru yn £8,024 (heb gynnwys TAW).

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk